| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Fforwm Cyllid Ysgolion |
| Dyddiad | 12fed o Ragfyr 2022 |
| Swyddog | Ffion E Ellis |
| Teitl yr Eitem | Diweddariad Gweithgor Cyllid ADY |

# Diweddariad Gweithgor Cyllid ADY

Ym Medi 2019 Cyflwynwyd Adroddiad Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio i Fwrdd Rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Cynigwyd bod y gwaith yn parhau trwy sefydlu gweithgor ymgynghori gydag ysgolion.

Ionawr a Chwefror 2020 Bu Arolygiad Allanol o'r Gwasanaeth ADY a CH yn ystod y cyfnod hwn. Roedd canfyddiadau'r Arolwg yn cadarnhau'r hyn sydd wedi ei gynnig o ran opsiynau ac argymhellion y Bwrdd Rheoli.

Ym Mawrth 2020 Bu i aelodaeth ar gyfer y grŵp gael eu hadnabod trwy ofyn am gynrychiolaeth drwy'r grwpiau strategol:

- *1 o Bennaethiaid Ffederasiwn Gwynedd*
- *1 o Grŵp Strategol Uwchradd Gwynedd*
- *1 o Bennaethiaid Uwchradd Môn*
- *1 o Grŵp Strategol Pennaethiaid Cynradd Môn*
- *Uwch Reolwr ADY a CH*
- *Cynrychiolaeth Adrannau Gyllid Gwynedd a Môn*
- *Rheolwr Prosiect ADY a CH*

Yng Nghyfarfod diweddaraf y grŵp ym Mis Chwefror 2021 bu i'r Gweithgor ystyried saith model gwahanol o ar gyfer ariannu. Roedd pob model yn gwneud defnydd o ddata PLASC (gweler Atodiad 1):

Y model a oedd yn cael ei ffafrio gan y gweithgor oedd Model 7. Cafwyd y sylwadau canlynol:

- Model 7 y'w run tecaf o ran diwallu anghenion ein disgyblion
- Model 7 sy'n adlewyrchu wir anghenion y disgyblion; nifer o modelau eraill yn rhagdybio sefyllfa, yn hytrach na'r hyn sy'n adlewyrchu wir anghenion y disgyblion
- A fyddai posib edrych ar fodel hwy; treigl 2 neu dair blynedd er mwyn i ysgolion wreiddio darpariaethau a buddsoddi mewn uwchsgilio staff
- Cyfnod hwyach yn rhoi mwy o sefydlogrwydd staff
- Yr angen am *swm wrth gefn* addas
- pwysigrwydd cywirdeb data CYBLD/PLASC
- Ystyried pwysiad ffatorau o fewn y fformiwla
- ystyriaeth symud cyfnodau e.e. meithrin-cynradd; cynradd-uwchradd ac uwchradd-addysgol ôl-orfodol.

## Mehefin – Rhagfyr 2022

- Cynhaliwyd gwaith Ymgynghori pellach gyda rhanddeiliaid wrth wneud y gwaith hwn trwy ymgynghori gyda grwpiau strategol, a holl benaethiaid cynradd ac Uwchradd. Hynny er mwyn canfod barn ynglyn a canlyniad y gweithgor ynglyn a Model 7
- Casglwyd barn trwy Arolwg, gyda'r canlyniad yn dangos bod y mwyafrif yn fafrio Model 7 o ran egwyddor, gyda gwaith pellach i'w wneud o ran yr egwyddorion, ac astudio effaith yn ofalus.

## Camau Nesaf:

- Cynnal gwaith modelu pellach ar Model 7 cyn diwedd Ionawr 2023, sydd yn cynnwys astudio effaith, cywirdeb data PLASC, pwysedd categoriau o fewn y model.
- Drafftio dogfen egwyddorion ar gyfer dyrannu'r cyllid, sydd yn ystyried ffactorau pwysig sydd wedi codi gan y gweithgor, a trwy'r Arolwg e.e.:
    - Effaith ar Ysgolion unigol – a fydd angen cyfnod trosglwyddo er mwyn lleihau effaith ar ddarpariaethau presennol
    - Maint y swm wrth gefn sydd yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod, a Meini Prawf ar gyfer Mynediad i'r swm hwn.
    - Egwyddorion defnydd statudol o'r cyllid sydd yn cael ei ddyrannu.
- Parhau i weithio tuag at gychwyn y dull Newydd o ariannu yn Ebrill 2023, ond hynny yn ddibynol ar ganlyniad y cyfnod modelu.